TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Introduction to Lambing

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn fan cychwyn perffaith i unrhyw un sy'n awyddus i gael mewnwelediad i amaethyddiaeth defaid ac wyna. Mae'n amser prysur o'r flwyddyn ar Fferm Rhadyr, a gyda'n sied wyna yn llawn, byddwch yn cael profiad ymarferol o weithio gyda'n praidd o ddefaid yr iseldir a'u hwyn newydd-anedig! Bydd ein tiwtoriaid arbenigol wrth law trwy gydol y bore i ateb eich holl gwestiynau.

Dyma'r cwrs i chi os...

... ydych yn awyddus i gael mewnwelediad i amaethyddiaeth defaid ac wyna

... oes gennych ddiddordeb brwd mewn ffermio defaid

... ydych yn awyddus i gael profiad ymarferol gydag wyn newydd-anedig

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael mewnwelediad i'r paratoadau hanfodol ar gyfer amser wyna, hanfodion cartref yn y sied wyna a sut i baratoi'ch hun a phraidd o ddefaid ar gyfer amser wyna. Bydd y cwrs yn gyflwyniad i wirio iechyd, bwydo ar gyfer tymor wyna llwyddiannus, a'r broses esgor arferol.

Byddwch yn cael bwydo'r wyn o botel ac efallai y byddwch hyd yn oed yn cael gweld oen yn cael ei eni, fodd bynnag nid ydym yn gallu gwarantu hyn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill tystysgrif coleg.

Cynhelir y cwrs hwn ar fore dydd Sadwrn rhwng 9am - 1pm. Bydd angen oferôls ac esgidiau â blaen caled arnoch.